Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol

# Cymraeg Cynnar 3

## Canolradd



Cymraeg Gwaith
Work Welsh

Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol

# Cymraeg Cynnar 3

## Canolradd



Cymraeg Gwaith
Work Welsh



# *Llawlyfr Cwrs Cymraeg Cynnar 3*

## *Cwrs Lefel Canolradd*

*gyda diolch i CWLWM am eu cyngor a'u cydweithrediad wrth baratoi'r cwrs hwn.*

Mae'r llyfryn hwn yn cynnig canllawiau i diwtoriaid sy'n dysgu'r **Cwrs Cymraeg Cynnar 3** – lefel Canolradd. Nid yw'n gwrs Canolradd llawn ond ei nod ydy galluogi ymarferwyr blynyddoedd cynnar sy'n meddu ar rywfaint o Gymraeg, i gyflwyno patrymau Cymraeg a rhoi arweiniad cywir yn y Gymraeg wrth eu gwaith bob dydd gyda phlant dan 5.

Dylid nodi o'r cychwyn cyntaf bod y cwrs hwn wedi'i lunio ar gyfer cynulleidfa benodol sef **gofalwyr plant cyn ysgol** gyda'r nod y bydd y sawl sy'n ei ddilyn yn gallu dychwelyd i'r gweithle i ddefnyddio'r iaith yn hyderus.



**CEFNDIR**

Comisiynwyd Canolfan Gwasanaethau Cymraeg Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant i awduro’r cwrs hwn ar sail gwaith ymchwil a wnaed i’r ddarpariaeth bresennol gan gwmni Sbectrwm.

Canfu’r gwaith ymchwil hwnnw yr angen am ddarpariaeth hyblyg yn cynnwys darpariaeth wyneb yn wyneb a darpariaeth y gallai’r ymarferwyr gael mynediad ati’n fwy annibynnol.

Mae’r tîm awduro yn cydnabod bod y sector gofal cyn ysgol yn gwbl allweddol o ran creu siaradwyr Cymraeg newydd a datblygu sgiliau a hyder wrth ddefnyddio’r iaith. Dyma’r oedran pan fydd plant yn caffael iaith yn gyflym ac yn naturiol. Mae ymchwil yn dangos bod cynifer ag 11% o’r holl siaradwyr Cymraeg wedi dysgu’r iaith mewn lleoliad cyn ysgol gyda 50% o’r siaradwyr hynny’n rhugl. Mae hyn yn fwy na’r ganran sy’n rhugl ymhlith y rhai sydd wedi dysgu’r iaith mewn ysgolion cynradd, uwchradd neu rywle arall heblaw am y cartref. Mae hyn yn tanlinellu pa mor dyngedfennol yw cyfraniad y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg/dwyieithog yn y sector gofal cyn ysgol i gyrraedd nod uchelgeisiol Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.



CYNNWYS

Mae’r cwrs wedi ei gynllunio ar ffurf 10 uned, i’w cyflwyno mewn sesiynau **wyneb yn wyneb** dros isafswm o 20 o oriau dysgu.

Cyflwynir patrymau iaith defnyddiol trwy gyfrwng cyfres o unedau sydd wedi eu seilio ar ardaloedd gweithgarwch a themâu cyffredin y maes. Ceir pwyslais cryf ar bethau sy’n greiddiol i waith yr ymarferwyr fel gofyn cwestiynau, rhoi cyfarwyddiadau a gorchmynion, ynghyd â ffocws ar weithgareddau craidd fel darllen a thrafod lluniau a stori, chwarae gemau a pharatoi ar gyfer gwahanol weithgareddau. Maent hefyd yn gydnaws â meysydd dysgu Fframwaith y Cyfnod Sylfaen (2015), ac mae’r gofynion perthnasol ar gyfer cyrhaeddiad y plant ifancaf ar draws y meysydd dysgu hynny wedi eu hymgorffori.

Cynlluniwyd y cwrs gyda ffocws penodol ar ddatblygu sgiliau llafar yr ymarferwyr a hynny’n adlewyrchu natur eu gwaith gyda phlant oed cyn ysgol. Modelir ffurfiau llafar sy’n gydnaws â’r ffurfiau a gyflwynir yn y sector addysgol er mwyn sicrhau cysondeb i’r plant. Lle bo amrywiaethau rhwng yr iaith lafar a ddefnyddir yn y de a’r gogledd, maent wedi eu hamlygu’n glir yn yr unedau.

Mae strwythur pob uned fel a ganlyn:

- Cyfres o **ddriliau** sy’n cyflwyno prif batrymau’r uned



Mae’r driliau wedi’u cynnwys er mwyn cyflwyno’r patrymau newydd yn y dosbarth. Mae’r adran **Drilio’r Patrymau Newydd** isod yn cynnig awgrymiadau pellach ar ddulliau drilio.

- **Sgyrsiau** er mwyn ymarfer y patrymau a gyflwynir wedi eu cyd-destunoli

Mae sgyrsiau wedi’u cynnwys ym mhob uned er mwyn gosod y patrymau newydd a addysgir mewn cyd-destunau enghreifftiol sy’n berthnasol i waith yr ymarferwyr.  Yn ogystal, gall yr ymarferwyr addasu llawer o’r deialogau hyn i’w defnyddio wrth chwarae rôl gyda’r plant yn eu gofal.  Mae’r adran **Defnyddio’r Sgyrsiau** isod yn cynnig awgrymiadau cyffredinol i’w defnyddio.

- **Rhestr eirfa**

Mae’r eirfa sydd wedi’i chynnwys a’i defnyddio yn y broses o addysgu’r uned wedi’i rhestru ar ddiwedd pob uned.  Rydym wedi ceisio sicrhau bod unrhyw eiriau sy’n ymddangos yn yr uned hefyd yn y rhestr eirfa.  Gall hyn olygu ailadrodd rhwng unedau, ond gobeithir ei fod yn fwy hwylus i’r defnyddiwr.  Mae’r geiriau hyn wedi eu didoli fesul cenedl yr enw ynghyd â’u cyfieithiadau Saesneg.

- **Esboniadau gramadegol**

Ceir nodiadau gramadeg ar ddiwedd pob uned er mwyn ceisio esbonio mor syml â phosibl pam mae pethau’n digwydd. Pwrpas cynnwys y nodiadau hyn ydy cynnig cyfle i’r ymarferwyr weld beth yw’r rhesymau dros ambell newid neu batrwm ac ymestyn eu gwybodaeth ehangach am y Gymraeg.  Eu nod ydy meithrin y sgiliau trosglwyddadwy hynny gan alluogi ymarferwyr i gymhwyso’r wybodaeth i batrymau eraill wrth iddynt ymestyn eu gafael ar yr iaith.



- **Gweithgareddau**

Mae'r gweithgareddau wedi'u cynnwys ym mhob uned fel dull o gadarnhau'r patrymau sydd wedi'u dysgu yn ystod yr uned honno.  Ceir gweithgareddau i'w cwblhau o fewn sefyllfa ddosbarth y gellid eu cyflwyno hefyd fel tasgau i'w cwblhau'n annibynnol.  Ceir gweithgareddau hefyd i'w cwblhau yn ôl yn lleoliadau'r ymarferwyr er mwyn rhoi cyfle penodol iddynt ymarfer yr hyn sy'n cael ei ddysgu rhwng sesiynau.  Gweler yr adran **Cyflwyno'r Gweithgareddau** isod am fanylion pellach ar weinyddu'r gweithgareddau.

Noder fodd bynnag, na ddylai dull strwythuro'r unedau gael ei ddefnyddio fel fframwaith cyfyng ar gyfer cynllunio'r sesiynau dysgu. Gallai tiwtor addasu trefn yr unedau yn unol â gofynion yr ymarferwyr, a cheir awgrymiadau pellach isod ar ddulliau o gyflwyno'r elfennau gwahanol yn yr uned.

***Dysgu ar-lein annibynnol***

Yn ogystal â'r gweithgareddau a gyflwynir fel rhan o'r cwrs, bwriedir i'r adnoddau a'r gweithgareddau atodol a welir ar wefan *Dysgu Cymraeg* atgyfnerthu'r dysgu wyneb yn wyneb a galluogi ymarferwyr i weithio'n fwy annibynnol. Gwelir yno amrywiaeth o weithgareddau fesul uned cyfatebol yn meithrin dealltwriaeth yr ymarferwyr o'r patrymau a'r eirfa a gyflwynir.

Mae’r wefan hefyd yn gartref i ffeiliau sain lle mae modd i ymarferwyr wrando ar y sgyrsiau sydd yn yr unedau a’r eirfa a gyflwynir, gyda’r nod o’u galluogi i feithrin ynganiad cywir, profi dealltwriaeth, ac ymarfer yn annibynnol.

Ceir gweithgareddau sy’n meithrin sgiliau ysgrifennu yn yr unedau ac yn y gweithgareddau atodol, ond fel y nodwyd eisoes, prif ffocws y cwrs ydy meithrin sgiliau llafar.





AWGRYMIADAU I DIWTORIAID SY’N CYFLWYNO’R CWRS

Mae’r adran hon yn cynnwys rhai awgrymiadau i gyflwyno’r cwrs yn y sesiynau wyneb yn wyneb.

***Drilio’r Patrymau Newydd***

Cyn dechrau’r dril yn y dosbarth:

1) dylid ymgyfarwyddo â **ffurfiau ac ynganiad** patrymau’r cwrs.

2) gellid gosod **nod y wers**, sef dweud beth fydd yn cael ei wneud yn y driliau. I ddechrau, dylid esbonio’r nod mewn ffordd syml ac yn ddwyieithog er mwyn gosod awyrgylch Cymraeg y bydd yr ymarferwyr yn ymdoddi’n raddol ac yn naturiol iddo, e.e. byddai’n well dweud:-

   ‘Heddiw, ’dyn ni’n mynd i ddysgu sut i ddweud ble mae pethau. Byddwn ni’n dysgu sut i ddweud pethau fel – ‘Mae Tedi ar y gadair, dan y bwrdd, ar bwys y drws.’’

   ***‘Today*** *we’re going to learn how to say where things are. We will be learning how to say things like – ‘Tedi is on the chair, under the table, by the door.’’*

   yn hytrach na dweud:-



‘Heddiw ‘dyn i’n mynd i ddysgu sut i ddefnyddio’r arddodiaid.’
*‘Today we’re going to learn how to use prepositions.’*

Serch hyn, mae’n bosibl y gallai’r ymarferwyr ddangos diddordeb mewn rhai agweddau gramadegol rywbryd yn ystod y wers. Bydd angen sicrhau eich bod fel tiwtoriaid yn gallu esbonio’r ramadeg yn glir ac yn gywir os oes angen.

Bydd eisiau addasu’r drilio i’r patrymau a ddysgir, ond yn gyffredinol, gellid dilyn y camau hyn:-

i. Esbonio ystyr y brawddegau i’w drilio. Dylid esbonio bod ffurfiau llafar yn cael eu cyflwyno, a’r rhesymau dros hynny. Yna, dylid **annog** y dosbarth i gau eu ffeiliau.

Y rheswm dros hyn yw:-
a) Bydd pawb yn edrych arnoch chi, y bwrdd gwyn ac aelodau eraill y dosbarth yn lle bod eu trwynau i lawr yn y llyfr.
b) Cânt gyfle i ddweud y geiriau newydd cyn eu gweld. Gobeithir y bydd hyn yn osgoi cam-ynganu trwy ddarllen yn anghywir.
Gellir pwysleisio y bydd popeth yn cael ei ysgrifennu ar y bwrdd gwyn ac y cânt edrych ar eu nodiadau cyn dechrau’r sgwrs.

ii. Annog y dosbarth i gyd i’ch dynwared mewn corws dair neu bedair gwaith.

iii. Dewis dysgwyr unigol ar hap i’ch dynwared, a’r tiwtor i gywiro/gadarnhau ymdrech yr unigolyn drwy ailadrodd yr un frawddeg:

Tiwtor: Mae'r twba o dan y drws.

*Dysgwr:* ***Mae'r twba o dan y drws.***

Tiwtor: Mae'r twba o dan y drws.

iv. Disodli un elfen o'r frawddeg, a defnyddio honno fel sbardun i unigolion gynhyrchu brawddeg e.e.

Tiwtor: Sudd oren.

*Dysgwr:* ***Wyt ti eisiau sudd oren?***

Tiwtor: Sudd afal.

*Dysgwr:* ***Wyt ti eisiau sudd afal?*** *a.y.y.b.*

v. Ar ôl gwneud yr holl floc, dylid ysgrifennu'r dril ar y bwrdd gwyn (fel mae'n ymddangos yn yr uned) drwy ofyn i bawb beth maent yn ei gofio o'r brawddegau.

vi. Rhannu pawb yn barau er mwyn ymarfer y brawddegau, gofyn cwestiynau a newid y darnau sydd wedi'u tanlinellu i'w hateb, e.e.:-

| | |
|---|---|
| Ble mae Tedi Twt? | Mae Tedi Twt ar y bwrdd. |
| | Mae Tedi Twt dan y gadair. |
| | Mae Tedi Twt ar y silff. |



vii. Cyfieithu - tiwtor yn dweud y Saesneg, a’r dosbarth i roi’r Gymraeg o’r elfennau ar lafar, ar y bwrdd neu ar fyrddau gwyn bach. Wedyn, gweithio mewn parau neu fel grŵp gan gynnal sesiwn dysgu mini meicro os oes modd.

viii. Dileu’r patrymau o’r bwrdd gwyn a’u defnyddio ar lafar yn y dosbarth, gyda’r tiwtor yn gofyn ble mae gwahanol bethau yn y dosbarth. Parau i wneud yr un peth wedyn cyn agor y llyfrau i edrych ar y sgyrsiau.

Dylid amrywio’r drilio yn ôl yr hyn a gyflwynir. Yn y dril uchod, er enghraifft, gellid cyflwyno’r arddodiaid i gyd gydag un neu ddau enw (e.e. y bag/y gadair) i ddechrau, neu hyd yn oed gyflwyno’r arddodiaid yn unig, gan ddefnyddio bag neu gadair yn yr ystafell cyn eu drilio mewn brawddegau.

Gellir rhoi geiriau newydd nad ydynt yn yr uned os bydd dysgwyr yn gofyn amdanynt a’u cynnwys yn y drilio. Bydd hyn yn sicrhau bod yr uned yn fwy perthnasol i unigolion yn y dosbarth. Ond dylid bob tro gychwyn dril gyda geirfa gyfarwydd er mwyn hoelio’r sylw ar y patrwm a gyflwynir.

Mae’n bwysig cyflwyno’r driliau’n gyflym ac yn fywiog heb dynnu sylw at gamgymeriadau unigolion.





***Defnyddio'r Sgyrsiau***

Dyma'r camau y gellir eu dilyn ar gyfer cyflwyno'r sgyrsiau:-

1. Y tiwtor yn darllen y sgwrs yn uchel - pawb i wrando er mwyn cael syniad cyffredinol o'r hyn sy'n digwydd. Byddai'n well gallu chwarae'r deialogau wedi'u recordio, os oes modd.
2. Y tiwtor yn darllen y sgwrs fesul brawddeg/llinell a'r dosbarth yn ailadrodd mewn corws.
3. Y tiwtor i roi cyfieithiadau Saesneg fesul llinell/brawddeg o'r sgwrs ar hap - pawb i ddod o hyd i'r llinell/frawddeg gyfatebol o'r sgwrs a'i dweud yn Gymraeg.
4. Y tiwtor i fynd dros ystyr popeth ar y diwedd ac ateb unrhyw gwestiynau.
5. Y tiwtor yn cymryd rhan A, a'r dosbarth rhan B ac fel arall.
6. Hanner y dosbarth i gymryd rhan A. Yr hanner arall i gymryd rhan B ac fel arall.
7. Ymarfer y sgwrs mewn parau, gan gyfnewid rôl a phartner ar ôl ychydig.
8. Ceisio cofio'r sgwrs, os na fydd hi'n rhy hir, a'i pherfformio heb edrych ar y daflen.
9. Tiwtor i danlinellu rhai geiriau yn y sgwrs i'w newid. Nid oes geiriau wedi'u tanlinellu yn y Llawlyfr Cwrs er mwyn rhoi'r hyblygrwydd i'r tiwtoriaid a'r ymarferwyr ddewis y geiriau eu hunain.

***Gweithgareddau'r Cwrs***

Ceir amrywiaeth o weithgareddau fel rhan o'r cwrs hwn. Mae pob uned yn cynnwys hyd at dri gweithgaredd i'w cwblhau fel rhan o'r broses o gyflwyno'r uned.

Pwrpas y gweithgareddau yw cadarnhau'r hyn sydd wedi'i ddysgu yn ystod y sesiwn.

Er bod cyfarwyddyd wedi ei gynnwys gyda'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau, dylai tiwtoriaid ac ymarferwyr feddwl am ddulliau amrywiol o ddefnyddio'r adnoddau. Mae hyn hefyd yn golygu bod modd defnyddio'r gweithgareddau'n wahaniaethol. Er enghraifft, gyda'r gemau trac, gellid derbyn atebion un gair ar gyfer rhai tasgau, ond gellid gofyn am atebion llawn, sgyrsiau neu drafodaethau ar gyfer yr un gêm drac ar adegau eraill.

Mae cael amrywiaeth o ddisiau rhif, rhagenwau, lliw, siapiau ac ati yn y dosbarth yn ddefnyddiol. Felly hefyd gardiau chwarae ac amrywiaeth o gardiau fflach megis Cardiau Fflach CBAC a Chynllun Colegau Cymru.

Bydd rhai gweithgareddau'n perthyn i ddriliau penodol, lle bo eraill yn canolbwyntio ar gynnwys unedau cyfan. Eto, mae hyn yn cynnig dewis ac elfen o hyblygrwydd i'r tiwtor wrth ddysgu'r cwrs.

Yn olaf, mae cynnal sesiynau mini meicro yn ymarfer da i'r ymarferwyr ar gyfer cyflwyno patrymau ieithyddol mewn cyd-destun anffurfiol sy'n eu paratoi ar gyfer sefyllfa yn eu gweithleoedd. Yn syml, mewn grwpiau o 3 neu 4, mae pob aelod o'r grŵp yn chwarae rôl yr 'arweinydd', gan gyflwyno gweithgaredd i'r dysgwyr drwy

gyfrwng y Gymraeg, e.e. gemau dis sy’n uniongyrchol gysylltiedig â’r patrymau iaith sy’n cael eu dysgu ar y pryd.  Mae’n broses effeithiol a pherthnasol o gadarnhau’r hyn sydd wedi’i ddysgu ac ar yr un pryd y mae’n ennyn hyder yr ymarferwyr i ddefnyddio’r Gymraeg ar lafar mewn cyd-destun cyfarwydd.

Fel sydd eisoes wedi’i nodi, mae yna weithgareddau i’w cwblhau yn ôl yn lleoliadau’r ymarferwyr.  Dylid annog hyn a chynnal sgwrs ar ddechrau pob sesiwn i weld pa fath o brofiadau y mae’r ymarferwyr wedi’u cael wrth wneud hynny.



**UNED 1: Iaith y Cylch**

**Pwynt Iaith 1: Rhaid i ...**

Rhaid i fi/mi fynd i’r gegin.

Rhaid i ti eistedd yn dawel am eiliad.

Rhaid i ni gyfri i bump.

Rhaid i chi aros.

**Pwynt Iaith 2:  Cyn i ...**

Cyn i fi/mi chwarae’r gêm, sefwch.

Cyn i ti yfed, eistedda.

Cyn i ni fwyta, eisteddwn yn dawel.

Gwisgwch got, cyn i chi adael.



**Darn 1**

| | |
|---|---|
| Arweinydd: | Cyn i fi ddechrau, eisteddwch yn dawel. Jodi, wyt ti'n iawn? |
| Jodi: | Ydw, diolch. |
| Arweinydd: | Iawn, rhaid i chi wrando'n astud. Gyda'n gilydd, rhaid i ni gyfrif i bump. |
| Pawb: | Un, dau, tri, pedwar, pump. |
| Arweinydd: | Da iawn, wir! Nawr, rhaid i ni gau ein llygaid. Gyda'n gilydd ... (Clychau yn y cefndir) Beth sy'n digwydd? Cyn i chi agor eich llygaid, rhaid canu cân 'Pwy sy'n dŵad dros y bryn? (Canu) Wel, dyma fe – Siôn Corn! |

**Pwynt Iaith 3: Ar ôl ...**

Ar ôl i fi/mi ddweud, cewch chi fwyta'r gacen.

Ar ôl i ti ganu, bydd pawb yn hapus.

Canwn ni gân, ar ôl i chi eistedd ar y mat.

Sgipiwch ar fy ôl i

Sgipiwch ar ei ôl e

Sgipiwch ar ei hôl hi

Sgipiwch ar ein hôl ni

Sgipiwch ar eu hôl nhw



**Pwynt Iaith 4: Rhag ofn i ti ...**

Rhag ofn i chi lithro, byddwch yn ofalus.

Ble mae dy fag? Rhag ofn i ti anghofio.

**Gweithgaredd.** Llenwch y bylchau gyda'r geiriau cywir.

Mae'n ganol gaeaf, gwisga'n gynnes _________ i ti fod yn oer.

Gallwn adael ____________ i chi orffen bwyta.

______ i ni fynd i'r tŷ bach, cyn mynd adre.

______ i fi anghofio, mwynhewch!

**Pwynt Iaith 5: Paid**

Paid torri ar fy nhraws i.

Paid torri ar ei draws e/o.

Paid torri ar ei thraws hi.

Paid torri ar draws neb!

Paid chwerthin am fy mhen i

Paid chwerthin am ei ben e/o.

Paid chwerthin am ei phen hi.

Paid chwerthin am ben neb!

Paid rhedeg o ’mlaen i!

Paid rhedeg o’i flaen e/o.

Paid rhedeg o’i blaen hi.

Paid rhedeg o flaen Elan!



## Geirfa

**Enwau benywaidd** *Feminine nouns*

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| cân/caneuon | song/s |
| cegin/ceginau | kitchen/s |
| eiliad/au | second/s |

**Enwau gwrywaidd** *Masculine nouns*

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| bryn/iau | hill/s |

**Berfau** *Verbs*

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| canu | to sing |
| cyfrif | to count |
| eistedd | to sit |
| gorffen | to finish |
| yfed | to drink |



**Ansoddeiriau** *Adjectives*

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| tawel | quiet |





**Gramadeg**

**Rhaid ... cyn ... ar ôl ... rhag ofn**

Cofiwch, wrth ddefnyddio'r patrymau hyn gydag '**i**', does dim '**yn**' ac mae treiglad meddal yn dilyn.

| | | |
|---|---|---|
| Rhaid | i fi/mi | fynd |
| Cyn | i ti | weithio |
| Ar ôl | iddo fe/fo | gerdded |
| Rhag ofn | iddi hi | gael |
| | i ni | |
| | i chi | |
| | iddyn nhw | |
| | i'r plant | |

Gyda rhai arddodiaid, mae angen rhoi '**fy ...**' / '**dy ...**' yn y canol, e.e. **ar fy nhraws i**, e.e.

Sgipiwch ar fy ôl i
Sgipiwch ar ei ôl e
Sgipiwch ar ei hôl hi
Sgipiwch ar ein hôl ni
Sgipiwch ar eu hôl nhw



Paid torri ar fy nhraws i.
Paid torri ar ei draws e/o.
Paid torri ar ei thraws hi.
Paid torri ar ein traws ni.
Paid torri ar eu traws nhw.
Paid torri ar draws neb!

Paid chwerthin am fy mhen i
Paid chwerthin am ei ben e/o.
Paid chwerthin am ei phen hi.
Paid chwerthin am ein pennau ni.
Paid chwerthin am eu pennau nhw.
Paid chwerthin am ben neb!

Paid rhedeg o ’mlaen i!
Paid rhedeg o’i flaen e/o.
Paid rhedeg o’i blaen hi.
Paid rhedeg o flaen Elan!
Paid rhedeg o’n blaenau ni.
Paid rhedeg o’u blaenau nhw.



## UNED 2: Trin a Thrafod

### Pwynt Iaith 1: Gorchmynion defnyddiol

| | |
|---|---|
| Rho’r blawd yn y bowlen. | Rhowch y blawd yn y bowlen. |
| Rho’r dŵr yn y bowlen. | Rhowch y dŵr yn y bowlen. |
| Cymysga’r blawd a’r dŵr. | Cymysgwch y blawd a’r dŵr. |
| Defnyddia’r llwy. | Defnyddiwch y llwy. |
| Defnyddia dy fysedd. | Defnyddiwch eich bysedd. |

### Pwynt Iaith 2: Ydy ...?

| | |
|---|---|
| Ydy e’n/o’n llyfn? | Ydy/Nac ydy. |
| Ydy e’n/o’n feddal? | |
| Ydy e’n/o’n galed? | |
| Ydy e’n/o’n ysgafn? | |
| Ydy e’n/o’n drwm? | |

### Pwynt Iaith 3: Teimlo

| | |
|---|---|
| Ydy e’n/o’n teimlo’n ludiog? | Ydy/Nac ydy. |
| Ydy e’n/o’n teimlo’n oer? | |
| Ydy e’n/o’n teimlo’n hyfryd? | |
| Ydy e’n/o’n teimlo’n seimllyd? | |



**Pwynt Iaith 4: Sut ...?**

| | |
|---|---|
| Sut mae e’n/o’n teimlo? | Mae e’n/o’n ludiog. |
| Sut mae e’n/o’n arogli? | Mae e’n/o’n hyfryd. |

**Pwynt Iaith 5: Gallu/medru**

| | |
|---|---|
| Wyt ti’n gallu gwneud blodyn? | Ydw/Nac ydw. |
| Wyt ti’n medru gwneud anifail? | |
| Dych/Dach chi’n gallu gwneud pêl? | Ydyn/Nac ydyn. Ydan/Nac ydan. |
| Dych/Dach chi’n medru gwneud sgwâr? | |

**Gweithgaredd** Llenwch y bylchau. Treiglwch os oes angen.

Dych chi i gyd yn barod i _______toes? ________y blawd a’r _____ yn y bowlen. _________eich bysedd. Sut mae e’n ________? Ydy e’n _________

dŵr/cymysgu/teimlo/rhowch/ludiog



**Pwynt Iaith 6: Pwy sy'n gallu/medru ...?**

| | |
|---|---|
| Pwy sy'n gallu rholio'r toes? | Dw i'n gallu rholio'r toes. |
| Pwy sy'n gallu gwasgu'r toes? | Dw i'n gallu gwasgu'r toes. |
| Pwy sy'n medru gweld siâp dy law? | Dw i'n medru gweld siâp fy llaw. |
| Pwy sy'n medru siapio'r toes gyda dy fysedd? | Dw i'n medru siapio'r toes. |
| Pwy sy'n medru gwneud neidr hir gyda'r toes? | Dw i'n medru gwneud siâp neidr. |

**Pwynt Iaith 7: Wnei di?/Wnewch chi?**

| | |
|---|---|
| Wnei di rannu dy does gyda Betsan? | Gwnaf/Na wnaf. |
| Wnei di dorri dy ddarn yn ofalus? | |
| Wnei di estyn y rholbren? | |

| | |
|---|---|
| Wnewch chi rolio eich toes? | Gwnawn/Na wnawn. |
| Wnewch chi roi'r toes yn y bowlen? | |
| Wnewch chi olchi eich dwylo? | |



**Darn 1**

| | |
|---|---|
| Arweinydd: | Pwy sy’n gallu rholio’r toes? |
| Maddie: | Dw i’n gallu rholio’r toes! |
| Arweinydd: | Arbennig Maddie, wyt ti’n gallu gwneud siâp seren? |
| Maddie: | Ydw! |
| Arweinydd: | Gwych. Wnei di rannu’r toes gyda Gwenno ac wnei di estyn y rholbren i fi, Marged? |
| Marged: | Gwnaf, dyma’r rholbren. |
| Arweinydd: | Diolch. Pwy sy’n gallu gwneud neidr hir gyda’r toes? |
| Jordan: | Dw i’n gallu gwneud neidr hir! |
| Arweinydd: | Arbennig Jordan, dyna neidr hyfryd. Nawr, wnewch chi olchi eich dwylo? |



## Geirfa

**Enwau benywaidd** *Feminine nouns*

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| llaw/dwylo | hand/s |
| llinell/au | line/s |
| llwy/au | spoon/s |
| powlen/ni | bowl/s |
| ton/nau | wave/s |

**Enwau gwrywaidd** *Masculine nouns*

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| anifail/anifeiliaid | animal/s |
| bawd/bodiau | thumb/s |
| blodyn/blodau | flower/s |
| halen | salt |
| rholbren/nau | rolling pin/s |
| toes | dough |



**Berfau** *Verbs*

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| arogli | to smell |
| cymysgu | to mix |
| defnyddio | to use |
| estyn | to pass/to reach |
| gwasgu | to squeeze/press |
| rhannu | to share |
| rholio | to roll |
| siapio | to shape |
| teimlo | to feel |
| torri | to cut |
| ysgrifennu | to write |

**Ansoddeiriau** *Adjectives*

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| gludiog | gluey |
| llyfn | smooth |
| meddal | soft |
| seimllyd | greasy |
| syth | straight |



**Gramadeg**

**Ydy ...?**

**Ydy e'n/o'n** + ansoddair

Mae angen treiglo'r ansoddair yn feddal ar ôl '**yn**' neu ''**n**',e.e.

Gludiog > Ydy e'n **l**udiog?

Ydy o'n **f**eddal?

**Ydy e'n/o'n** + berf + **yn** + ansoddair

Unwaith eto, mae angen treiglo'r ansoddair yn feddal ar ôl '**yn**' neu ''**n**', e.e.

Ydy e'n teimlo'n **g**aled?

Ydy o'n teimlo'n **d**rwm?

Dydy '**ll**' na '**rh**' ddim yn treiglo'n dilyn '**yn**', e.e.

Ydy e'n teimlo'n llyfn?

Mae '**yn**' yn troi'n ''**n**' yn dilyn llafariad, e.e.

Ydy e'n teimlo'**n** oer?'



**Wnei di? Wnewch chi?**

Patrwm tebyg iawn sy ar gyfer '**Wnei di?**' neu '**Wnewch chi?**' ( *Will you?* ), e.e.

| | |
|---|---|
| Wnei di? (unigol) | Gwnaf/Na wnaf. |
| Wnewch chi? (lluosog) | Gwnawn/Na wnawn. |

Eto, mae angen treiglo'r ferf sy'n dilyn, e.e.

Wnei di **g**ymysgu'r blawd?

Wnewch chi **r**oi'r blawd yn y bowlen?

**Rhagenwau**

Sylwch fod nifer o ragenwau (*pronouns*) yn y darn hwn sy'n dweud pwy sy biau'r peth, e.e. *defnyddia dy fysedd*. Dyma'r rhagenwau hyn a'r treiglad sy'n dilyn.

| **Rhagenw dibynnol** | **Treiglad** |
|---|---|
| Fy nghadair | Treiglad trwynol |
| Dy gadair | Treiglad meddal |
| Ei (his) gadair | Treiglad meddal |
| Ei (her) chadair | Treiglad llaes a 'h' cyn llafariad, e.e. ei **ch**wpan |
| Ein cadair | Dim treiglad ond 'h' cyn llafariad, e.e. ein **h**amser |
| Eich cadair | Dim treiglad |
| Eu cadair | Dim treiglad ond 'h' cyn llafariad, e.e. eu **h**ysgol |



## UNED 3: Amser stori

### Pwynt Iaith 1:  Dechrau Stori

Mae hi'n amser stori.

Pwy sy eisiau/isio clywed stori?

Pwy sy'n dewis llyfr heddiw?

Pwy sy heb ddewis llyfr eto?

| | | |
|---|---|---|
| Ydy pawb yn … | barod? | |
| | dawel? | Ydyn/Ydan. |
| | gwrando? | Nac ydyn/Nac ydan. |
| | edrych? | |

'Dyn/Dan ni'n mynd i ddechrau.





| | |
|---|---|
| **Darn 1** | |
| Arweinydd: | Nawr, blant, mae hi'n amser stori. Pwy sy eisiau clywed stori? |
| Plant: | Fi! |
| Arweinydd: | Pawb, da iawn chi. Pwy sy'n dewis llyfr heddiw? |
| Esther: | Fi. |
| Arweinydd: | Iawn, Esther. Dyma'r llyfr. Ydy pawb yn barod? 'Dyn ni'n mynd i ddechrau. |

**Pwynt Iaith 2: Beth …?/Be …? Pwy...? Faint...?**

| | |
|---|---|
| Beth/Be sy ar y clawr? | Tri mochyn bach! |
| Beth/Be sy'n digwydd yn y stori? | Mae blaidd yn dod! |
| Pwy sy yn y llun? | Blaidd! |
| Pwy sy'n hapus? | Hugan Fach Goch! |
| Faint o bobl sy yn y llun? | Mae tri o bobl yn y llun. |
| Faint sy'n eistedd? | Mae pump yn eistedd. |





**Pwynt Iaith 3: Pwy …?**

| | |
|---|---|
| Pwy ydy hwn? | Iestyn. |
| Pwy ydy hon? | Mari. |
| Pwy ydy'r dyn cas? | Mr Crac. / Mr Blin. |

**Darn 2**

| | |
|---|---|
| Arweinydd: | Dan ni'n mynd i ddarllen stori'r Hugan Fach Goch. |
| | Ydy pawb yn barod? |
| Plant: | Ydan! |
| Arweinydd: | Gwrandewch yn astud. Be ydy hon? Edrychwch ar y llyfr. |
| Ethan: | Merch? |
| Arweinydd: | Ie, da iawn Ethan, merch neu hogan ydy hi. Pwy ydy hi? |
| Alys: | Hugan Fach Goch. |
| Arweinydd: | Ie, da iawn Alys, Yr Hugan Fach Goch ydy hi. |

**Pwynt Iaith 4: Sut …?**

| | |
|---|---|
| Sut mae e'n/o'n teimlo? | Hapus. |
| Sut mae hi'n teimlo? | Ofnus. |
| Sut maen nhw'n teimlo? | Crac. / Blin. |





| | |
|---|---|
| **Darn 3** | |
| Arweinydd: | Dyma Hugan Fach goch yn cerdded drwy'r goedwig. Sut mae hi'n teimlo? |
| Harri: | Hapus. |
| Arweinydd: | Ydy, Harri. Mae hi'n mynd i weld Mam-gu. Nawr, beth sy yn y llun? |
| Jac: | Blaidd. |
| Arweinydd: | Da iawn, Jac, blaidd sy yn y llun. Sut mae Hugan Fach Goch yn teimlo nawr? |
| Harri: | Ofnus. |
| Arweinydd: | Ydy, mae hi'n ofnus. |

**Pwynt Iaith 5: Gorffen darllen y stori**

| | |
|---|---|
| Wyt ti'n hoffi'r/licio'r llyfr? | Ydw/Nac ydw. |
| Wyt ti'n hoffi'r/licio'r cymeriadau? | |
| | |
| Dych/Dach chi'n hoffi'r/licio'r stori? | Ydyn/ Ydan. |
| Dych/Dach chi'n hoffi'r/licio'r lluniau? | Nac ydyn/Nac ydan. |



**Pwynt Iaith 6:  Hoffet/Liciet ti?**

| | |
|---|---|
| Hoffet/Liciet ti ddal y llyfr, Siôn? | Hoffwn. |
| Beth hoffet ti/Be liciet ti ddarllen nesa? | Magi Ann. |

| | |
|---|---|
| Hoffech/Liciech chi gael y stori eto? | Plîs! |
| Beth hoffech chi/Be liciech wneud nesa? | Cael diod! |

**Pwynt Iaith 7: Hoffwn/Liciwn i**

Hoffwn/Liciwn i ddarllen stori i chi fory hefyd!

Hoffwn/Liciwn i chi eistedd yn dawel os gwelwch yn dda!



## Geirfa

**Enwau benywaidd** *Feminine names*

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| coedwig/oedd | forest/s |
| hogan/genod | girl/s |

**Enwau gwrywaidd** *Masculine names*

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| blaidd/bleiddiaid | wolf/wolves |
| clawr/cloriau | cover/s |
| cymeriad/dau | character/s |

**Berfau** *Verbs*

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| cerdded | to walk |
| clywed | to hear |
| dewis | to select |
| digwydd | to happen |
| teimlo | to feel |



**Ansoddeiriau** ***Adjectives***

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| astud | carefully (to listen) |
| crac / blin | angry |
| ofnus | scared |
| parod | ready |
| tawel | quiet |





**Gramadeg**

| **Cadarnhaol** | **Cwestiwn** | **Negyddol** |
|---|---|---|
| Hoffwn i | Hoffwn i? | Hoffwn i ddim |
| Hoffet ti | Hoffet ti? | Hoffet ti ddim |
| Hoffai e | Hoffai e? | Hoffai e ddim |
| Hoffai hi | Hoffai hi? | Hoffai hi ddim |
| Hoffen ni | Hoffen ni? | Hoffen ni ddim |
| Hoffech chi | Hoffech chi? | Hoffech chi ddim |
| Hoffen nhw | Hoffen nhw? | Hoffen nhw ddim |

| **Cadarnhaol** | **Cwestiwn** | **Negyddol** |
|---|---|---|
| Liciwn i | Liciwn i? | Liciwn i ddim |
| Liciet ti | Liciet ti? | Liciet ti ddim |
| Liciai o | Liciai o? | Liciai o ddim |
| Liciai hi | Liciai hi? | Liciai hi ddim |
| Licien ni | Licien ni? | Licien ni ddim |
| Liciech chi | Liciech chi? | Liciech chi ddim |
| Licien nhw | Licien nhw? | Licien nhw ddim |

Cofiwch am y treiglad meddal, e.e.

Hoffwn i **f**ynd.



**Sy/Ydy**

Mae'n bosibl defnyddio '**sy**' er mwyn nodi '*that'* yn yr amser presennol ac mae'n cyfeirio (*refers to*) at bwy sy'n gwneud y weithred (*act*) e.e.

Pwy sy'n eistedd?

Pwy sy yn y llun?

Pwy sy'n hapus?

Mae '**ydy**' yn dweud **beth/pwy** ydy rhywbeth e.e.

Pwy ydy hwn?  Alun ydy e

Beth ydy hwn?  Coeden ydy hi.

**Oedd**

'Dyn ni'n defnyddio '**oedd**' er mwyn nodi'r amser amherffaith (*the imperfect tense*), e.e.

Pwy oedd yn hapus? *Who was happy?*





## UNED 4: Chwarae gemau bwrdd

### Pwynt Iaith 1: Eisiau/Isio

| | |
|---|---|
| Wyt ti eisiau/isio chwarae gêm? | Ydw/Nac ydw. |
| Wyt ti eisiau/isio chwarae'r gêm eto? | |
| Dych/Dach chi eisiau/isio chwarae nadroedd ac ysgolion? | Ydyn/Nac ydyn. |
| Dych/Dach chi eisiau/isio paru cardiau? | |

### Pwynt Iaith 2: Pwy sy eisiau/isio …?

| | |
|---|---|
| Pwy sy eisiau/isio mynd gynta? | Fi! |
| Pwy sy eisiau/isio mynd nesa? | Tomos! |
| Pwy sy eisiau/isio taflu'r dis? | |
| Pwy sy eisiau/isio dewis cownter? | |
| Pwy sy eisiau/isio rhannu'r cardiau? | |



**Pwynt Iaith 3: Gorchmynion gemau**

| | |
|---|---|
| Arhosa am dy dro | Arhoswch am eich tro |
| Tafla'r dis | Taflwch y dis |
| Symuda'r cownter | Symudwch y cownter |
| Cymera gerdyn | Cymerwch gerdyn |

**Pwynt Iaith 4: Canmol**

Dych/Dach chi'n chwarae'n dda gyda'ch/efo'ch gilydd.

Dych/Dach chi'n amyneddgar.

Rwyt ti'n aros am dy dro'n dda.

Rwyt ti'n rhannu'n dda.

**Gweithgaredd** Llenwch y bylchau yn y darn hwn.

Wyt ti eisiau chwarae ________? Dych chi eisiau _________cardiau?

Pwy sy eisiau mynd ___________? Iawn, __________ gerdyn. Dim pâr!

Tro pwy sy ____________? Rwyt ti'n ____________am dy dro'n dda.

aros/cymer/paru/nesa/gynta/gêm



**Pwynt Iaith 5: Cei/Cewch**

| | |
|---|---|
| Ga i fynd nesa? | Cei. |
| Ga i fod yn farchog? | Cei. |
| | |
| Gawn ni fod yn dîm? | Cewch. |
| Gawn ni chwarae bingo? | Cewch. |

Cei di chwarae'r gêm y tro yma.
Cei di fod yn blismon y tro nesa.
Cei di fod gynta y tro nesa.

Cewch chi ofyn cwestiwn.
Cewch chi rannu'r cardiau.
Cewch chi weithio fel pâr.

**Gweithgaredd** Trowch o'r unigol (un person) i'r lluosog (mwy nag un person), e.e. tafla > taflwch.

Ti sy gynta. Cymera garden. Da iawn ti, nawr tafla'r dis. Symuda'r cownter ymlaen dau gam. Rho'r dis i rywun arall. Cei di fynd nesa.





**Pwynt Iaith 6: Ymadroddion defnyddiol**

Y tro yma.
Y tro nesa.

| | |
|---|---|
| Tro pwy sy nesa? | Fi sy nesa. |
| | Tro Geraint sy nesa. |
| Pwy sy nesa? | Dewi. |
| Pwy sy'n dechrau? | Eirian sy'n dechrau. |
| Pwy sy wedi ennill? | Mali sy wedi ennill! |
| Pwy sy wedi gorffen? | Mae Hedydd wedi gorffen! |

Jac sy'n ennill bob tro
Ela enillodd ddoe.
Dw i byth yn ennill!
Dw i erioed wedi ennill gêm o nadroedd ac ysgolion!



## Geirfa

**Enwau benywaidd** *Feminine nouns*

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| neidr/nadroedd | snake/s |
| ysgol/ion | ladder/s |

**Enwau gwrywaidd** *Masculine Nouns*

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| cerdyn/cardiau | card/s |
| cownter/i | counter/s |
| darn/au | piece/s |
| dis/iau | dice/die |
| marchog/ion | knight/s |
| pâr/parau | pai/s |
| plismon/plismyn | policeman/men |

**Berfau** *Verbs*

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| cymryd | to take |
| ennill | to win |
| paru | to pair |
| rhannu | to share |



**Ansoddeiriau** *Adjectives*

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| amyneddgar | patient |
| cynta | first |
| nesa | next |



## Gramadeg

### Cei/Cewch

Dych chi'n gwybod sut i ddefnyddio '**Ga i?**' er mwyn gofyn '*May I?*' a '**Gawn ni?**' ar gyfer '*May we?* a'r atebion '**Cei/Na chei'** a '**Cewch/Na chewch'**.

Mae'n bosibl ddefnyddio '**Cei**' heb ei fod yn ateb cwestiwn hefyd. Mae angen i'r gair sy'n dilyn y person dreiglo'n feddal, e.e.

Cei di fynd yn gynta

Cewch chi dro nawr

### Byth ac erioed

Dylech ddefnyddio '**byth**':

| | |
|---|---|
| Presennol | Dw i byth yn ennill gemau bwrdd. |
| Dyfodol | Fydda i byth yn ennill gêm. |
| Amodol | Faswn i byth yn chwarae'r gêm. |
| Amherffaith | Do'n i byth yn arfer ennill. |

Dylech ddefnyddio '**erioed**':

| | |
|---|---|
| Gyda '**wedi**' | Dw i erioed wedi ennill gêm. |
| | Dw i ddim wedi ennill gêm erioed. |
| Gorffennol | Enillais i erioed. |

Wrth ddefnyddio '**erioed**' mewn cwestiwn, mae'n golygu '*ever*', e.e.

Wyt ti erioed wedi ennill gêm?



## UNED 5: Corfforol

### Pwynt Iaith 1: Gorchmynion

| | |
|---|---|
| Cerdda'n araf | Cerddwch yn araf |
| Cerdda'n gyflym | Cerddwch yn gyflym |
| Sefa'n llonydd | Sefwch yn llonydd |
| Gwranda'n ofalus | Gwrandewch yn ofalus |
| Gorwedda'n dawel | Gorweddwch yn dawel |
| Neidia'n uchel | Neidiwch yn uchel |

**Gweithgaredd** Newidiwch o'r lluosog i'r unigol, e.e. cerddwch > cerdda

Mae'n amser i ni wneud ymarfer corff, blant. Dewch gyda fi. Gwrandewch yn ofalus. Sefwch yn llonydd yn gyntaf, wedyn cerddwch yn araf o gwmpas y neuadd. Nawr, neidiwch yn uchel! Da iawn! Nesaf, gorweddwch yn dawel ar y llawr.

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Cymraeg Gwaith Work Welsh



**Pwynt Iaith 2: Gwneud siâp**

Gwna siâp hir
Gwna siâp byr
Gwna siâp seren
Gwna siâp cylch

Gwnewch siâp hir
Gwnewch siâp byr
Gwnewch siâp seren
Gwnewch siâp cylch

**Pwynt Iaith 3: Fel**

Cerdda fel eliffant
Rheda fel llewpart
Sefa fel fflamingo
Neidia fel mwnci

Cerddwch fel eliffant
Rhedwch fel llewpart
Sefwch fel fflamingo
Neidiwch fel mwnci

**Pwynt Iaith 4: Pwy sy'n gallu/medru…?**

Pwy sy'n gallu cerdded fel cawr?
Pwy sy'n medru rhedeg fel llygoden?



**Darn 1**

Arweinydd: Iawn, blant, Dan ni'n mynd i'r neuadd. Cerddwch efo fi. Dan ni'n mynd i esgus bod yn anifeiliaid. Dach chi'n barod?  Un dau, tri, cerddwch fel eliffant! Da iawn, bawb. Nesa, pwy sy'n medru rhedeg fel llewpart?

Gwennan: Fi!

Arweinydd: Gwych, Gwennan. Gwna siâp seren!  Pwy sy'n medru neidio fel mwnci?

Celyn: Dw i'n medru neidio fel mwnci!

Arweinydd: Ardderchog, Celyn. Gwna siâp hir i fi. Bawb, gwnewch siâp cylch. Arbennig.

**Pwynt Iaith 5: Gallu/medru**

| | |
|---|---|
| Wyt ti'n gallu ymestyn yn uchel? | Dych/Dach chi'n gallu ymestyn yn uchel? |
| Wyt ti'n gallu hercian? | Dych/Dach chi'n gallu hercian? |
| Wyt ti'n medru sefyll ar un goes? | Dych/Dach chi'n medru sefyll ar un goes? |





**Darn 2**

Arweinydd: 'Dyn ni'n mynd i chwarae gêm 'Pwy sy'n gallu?' Dych chi'n barod? Alun, wyt ti'n barod? Sefwch mewn cylch. Dych chi'n gallu ymestyn i'r awyr?

Plant: Ydyn!

Arweinydd: Gwych. Da iawn bawb. Nesa, dych chi'n gallu sefyll ar un goes? Bethan, wyt ti'n gallu sefyll ar un goes fel fflamingo?

Bethan: Ydw, Miss.

Arweinydd: Da iawn, Bethan. Mared, wyt ti'n gallu hercian? Da iawn, dangosa i bawb. Dych chi'n gallu hercian fel Mared? Gwaith da, bawb!

**Gweithgaredd**

1. Rhowch orchmynion newydd yn y darn uchod, er enghraifft gallech osod 'cropian' yn lle 'hercian'.
2. Sawl gorchymyn sy yn y sgwrs hon?
3. Sawl gorchymyn lluosog (mwy nag un person) sy yno?
4. Sawl gorchymyn unigol (un person) sy yno?



**Pwynt Iaith 6: Wnei di ...? Wnewch chi ...? (De Cymru)**

| | |
|---|---|
| Wnei di sefyll ar un goes? | Wnewch chi neidio fel mwnci? |
| Wnei di orwedd yn dawel? | Wnewch chi wrando'n ofalus? |
| Wnei di agor y drws? | Wnewch chi gau'r drws? |
| Gwnaf/Na wnaf. | Gwnawn/Na wnawn. |

**Pwynt Iaith 7: Fedri di ...? Fedrwch chi ...? (Gogledd Cymru)**
**Alli di...? Allwch chi...?**

| | |
|---|---|
| Fedri di sefyll ar un goes? | Fedrwch chi neidio fel mwnci? |
| Fedri di orwedd yn ddistaw? | Fedrwch chi wrando'n ofalus? |
| Fedri di agor y drws? | Fedrwch chi gau'r drws? |
| Medraf/Na fedraf. | Medrwn/Na fedrwn. |

| | |
|---|---|
| Alli di sefyll ar un goes? | Allwch chi neidio fel mwnci? |
| Alli di orwedd yn dawel? | Allwch chi wrando'n ofalus? |
| Alli di agor y drws? | Allwch chi gau'r drws? |
| Gallaf/Na allaf. | Gallwn/Na allwn. |



## Geirfa

**Enwau benywaidd** *Feminine nouns*

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| cwningen/cwningod | rabbit/s |
| llygoden/llygod | mouse/mice |
| neuadd/au | hall/s |

**Enwau gwrywaidd** *Masculine nouns*

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| cawr/cewri | giant/s |
| crwban/od | tortoise/s |
| esgus/odion | excuse/s |
| llewpart/iaid | leopard/s |



**Berfau** *Verbs*

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| aros | to wait |
| esgus | To pretend |
| plygu | to bend |
| rhewi | to freeze |
| ymestyn | to stretch |

**Ansoddeiriau** *Adjectives*

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| llonydd | still |



**Gramadeg**

**Gorchmynion - Berfau rheolaidd**

Pan fyddwn yn rhoi gorchymyn i rywun gan ddefnyddio berf reolaidd (*regular*), ’dyn ni’n rhoi ‘**-a**’ ar fonyn y ferf ar gyfer berfau unigol, e.e.

rhedeg: rheda

cerdded: cerdda

Ar gyfer y lluosog, ’dyn ni’n rhoi ‘**-wch**’ ar fonyn y ferf, e.e.

rhedeg: rhedwch

cerdded: cerddwch

Mae un ferf afreolaidd (*irregular)* yn yr uned hon, sef ‘**gwneud**’. ‘**Gwna**’ yw’r unigol, ‘**gwnewch**’ yw’r lluosog.

Gallwn ychwanegu (*add)* at y gorchymyn mewn dwy ffordd.  Gallwn ychwanegu ‘**yn**’ + ansoddair, e.e.

Cerddwch yn araf

Rhedwch yn gyflym

Cofiwch fod angen treiglad meddal ar ôl ‘**yn**’ yma!



**Neu**

Gallwn ychwanegu ‘**fel**’ er mwyn cymharu â rhywbeth, e.e.

Neidiwch fel mwnci

Sefwch fel fflamingo

**Wnei di? / Fedri di?**

Cofiwch y treiglad meddal wrth ddefnyddio’r patrwm yma, e.e.

Fedri di **g**au’r drws?

Wnewch chi **g**erdded yma?



## UNED 6: Tywod a Dŵr

**Pwynt Iaith 1: Oes ...?**

| | |
|---|---|
| Oes twndis/twmffat yn y tywod? | Oes/Nac oes. |
| Oes cragen yn y tywod? | |
| Oes ffedog yn y cwpwrdd? | |

**Pwynt Iaith 2: Beth/Be ...?**

| | |
|---|---|
| Beth/Be wyt ti’n wneud? | Dw i’n chwarae gyda’r/efo’r tywod. |
| | Dw i’n arllwys/tywallt dŵr yn y cwpan. |
| Beth dych/Be dach chi’n wneud? | ’Dyn/Dan ni’n gwneud siapiau yn y tywod. |
| | ’Dyn/Dan ni’n rhoi’r tywod yn y cwpan. |





**Darn 1**

Arweinydd: Dach chi'n barod i chwarae yn y tywod? Oes twmffat yn y tywod?

Plant: Oes.

Arweinydd: Edrychwch, mae'r tywod yn llifo drwy'r twmffat. Wyt ti'n medru llenwi'r bwced efo'r tywod, Efa?

Efa: Ydw.

Arweinydd: Gwych, Efa. Oes rhywbeth yn cuddio yn y tywod?

Efa: Oes, mae rhidyll yn y tywod.

Arweinydd: Gwych, Efa!

**Pwynt Iaith 3: Ydy...yn mynd i?**

Ydy'r seren yn mynd i arnofio? Ydy/Nac ydy.

Ydy'r gragen yn mynd i arnofio?

Ydy'r rhaw yn mynd i suddo?

Ydy'r biben yn mynd i suddo?



**Pwynt Iaith 4: Ie/Ia Nage/Naci**

| | |
|---|---|
| Y seren sy'n arnofio? | Ie/Ia. Nage/Naci. |
| Ond, y gragen sy'n suddo? | |
| Dau gwch sy yno? | |

**Pwynt Iaith 5: Beth/Be sy'n...?**

| | |
|---|---|
| Beth/Be sy'n digwydd nawr? | Mae'r gragen yn arnofio. |
| | Mae'r dŵr yn llifo. |

| | |
|---|---|
| Beth/Be sy'n digwydd pan 'dyn/dan ni'n rhoi'r dŵr drwy'r twndis? | Mae'n llifo. |
| Beth/Be sy'n digwydd pan 'dyn/dan ni'n rhoi'r cwch ar y dŵr? | Mae'n arnofio. |
| Beth/Be sy'n digwydd pan 'dyn/dan ni'n rhoi'r geiniog yn y dŵr? | Mae'n suddo. |

**Pwynt Iaith 6: Beth/Be sy wedi...?**

| | |
|---|---|
| Beth/Be sy wedi suddo yn y dŵr? | Y garreg. |
| Beth/Be sy wedi digwydd i'r rhaw? | Mae'r rhaw wedi suddo. |
| Beth/Be sy wedi digwydd i'r castell? | Mae'r castell wedi suddo. |



**Darn 2**

| | |
|---|---|
| Arweinydd: | Edrychwch ar y tywod. Beth sy’n digwydd pan ’dyn ni’n rhoi’r tywod sych drwy’r rhidyll? |
| Aron: | Mae’n llifo. |
| Arweinydd: | Da iawn, Aron, mae’n llifo. Beth sy’n digwydd pan ’dyn ni’n rhoi’r oren yn y dŵr? |
| Cellan: | Mae’n suddo. |
| Arweinydd: | Ydy e’n suddo, Cellan? Beth sy’n digwydd nawr? |
| Cellan: | Mae e’n arnofio. |
| Arweinydd: | Gwych, Cellan, mae’n arnofio, da iawn. |





## Geirfa

**Enwau benywaidd** *Feminine nouns*

| Cymraeg | Saesneg |
| --- | --- |
| ceiniog/au | penny/pennies |
| cragen/cregyn | shell/s |
| ffedog/au | apron/s |
| llawes/llewys | sleeve/s |
| piben/pibau | pipe/s |
| rhaw | spade/s |

**Enwau gwrywaidd** *Masculine nouns*

| Cymraeg | Saesneg |
| --- | --- |
| castell/cestyll | castle/s |
| cwch/cychod | boat/s |
| cwpwrdd/cypyrddau | cupboard/s |
| rhidyll/au | sieve/s |
| twba/twbâu | tub/s |
| twmffat/twmffedi | funnel/s (N.Wales) |
| twndis/au | funnel/s (S.Wales) |



**Berfau** *Verbs*

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| arnofio | to float |
| arllwys | to pour |
| codi | to lift |
| cuddio | to hide |
| gallu/medru | to be able to |
| gorlenwi | to overfill |
| gwlychu | to wet |
| llenwi | to fill |
| llifo | to flow |
| suddo | to sink |
| taflu | to throw |
| tywallt | to pour |

**Ansoddeiriau** *Adjectives*

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| gofalus | careful |



**Gramadeg**

**Oes ...?**

'Dyn ni'n defnyddio'r patrwm '**Oes ...?**' i ofyn '*Is there a?'* neu '*Are there any?',* e.e.

Oes twndis/twmffat yn y tywod? Oes/Nac oes.

Oes rhaw yn y dŵr?

Does dim angen treiglo ar ôl '**Oes**'.

**Ydy'r ...?**

'Dyn ni'n defnyddio '**Ydy'r**' er mwyn gofyn *'Is the?'.*

Os ydy'r gair sy'n dilyn yn wrywaidd, does dim angen treiglo, e.e.

Ydy'r cwch yn y **d**ŵr?

Ydy'r cwpan yn y tywod?

Ond os ydy'r gair sy'n dilyn yn fenywaidd, mae angen treiglo'n feddal, e.e.

Ydy'r **g**einiog yn suddo?

Ydy'r **g**ragen yn arnofio?

Dydy '**ll**' na '**rh**' ddim yn treiglo ar ôl '**ydy'r**', e.e.

Ydy'r **rh**aw yn y tywod?



**Ie/Ia      Nage/Naci**

Os dych chi’n clywed cwestiwn sy’n dechrau â’r gair pwysicaf, rhaid i chi ddefnyddio’r atebion yma.  Os dywedwch chi ‘**Ie/Ia**’ does dim angen i chi ddweud mwy!  Does dim ots os dych chi’n siarad yn y gorffennol, y presennol neu’r dyfodol.

**Beth/Be sy’n digwydd?      Beth/Be sy wedi digwydd?**

’Dyn ni’n gallu defnyddio ‘**beth/be sy’n digwydd**’ er mwyn trafod beth sy’n digwydd nawr neu beth sy’n digwydd yn y dyfodol, e.e. ‘**beth sy’n digwydd nawr?**’, ‘**beth sy’n digwydd nesaf?**’.

Os ’dyn ni eisiau trafod rhywbeth sy wedi digwydd yn y gorffennol, ’dyn ni’n defnyddio,

‘**Beth sy wedi digwydd?**’

Does byth angen ‘**’n**’ neu ‘**yn**’ gyda ‘**wedi**’.





## UNED 7: Cerdd a Sain

**Pwynt Iaith 1: Pa?**

| | |
|---|---|
| Pa gân wyt ti'n hoffi? | Dw i'n hoffi cân y tywydd. |
| Pa offeryn wyt ti'n hoffi? | Dw i'n hoffi'r ffliwt. |
| Pa sŵn wyt ti'n hoffi? | Dw i'n hoffi sŵn y triongl. |
| | |
| Pa gân dych/dach chi'n chasáu? | 'Dyn/Dan ni'n casáu sŵn drymiau. |
| Pa offeryn dych/dach chi'n gasáu? | 'Dyn/Dan ni'n casáu'r gitâr. |
| Pa sŵn dych/dach chi'n gasáu? | 'Dyn/Dan ni'n casáu'r symbalau. |
| | Mae'n gas gyda fi/gen i'r symbalau. |

**Pwynt Iaith 2: Hoff**

| | |
|---|---|
| Pa un ydy dy hoff gân? | 'Y Glaw'. |
| Pa un ydy eich goff gân | 'Yr Haul'. |
| | |
| Pa un ydy dy hoff offeryn? | Y drwm. |
| Pa un ydy eich hoff offeryn? | Y piano. |





**Pwynt Iaith 3: Teimlo**

| | |
|---|---|
| Sut wyt ti'n teimlo wrth wrando ar y gerddoriaeth? | Dw i'n teimlo'n hapus. |
| Sut wyt ti'n teimlo wrth glywed sŵn tawel/distaw? | Dw i'n teimlo'n gysglyd. |
| Sut dych chi'n teimlo wrth glywed sŵn uchel? | 'Dyn/Dan ni'n teimlo'n ofnus. |

**Darn 1**

| | |
|---|---|
| Arweinydd: | Mae'n amser cerddoriaeth, bawb.  Gwrandewch ar y caneuon. Pa gân dach chi'n hoffi? |
| Erin: | 'Dawns y Dail!' |
| Arweinydd: | Da iawn. Dw i'n hoffi 'Dawns y Dail' hefyd. Mae hi'n fywiog iawn. Pa offeryn dach chi'n hoffi? |
| Ryan: | Y piano! |
| Arweinydd: | Hyfryd, Ryan. Y piano ydy fy hoff offeryn i. Sut wyt ti'n teimlo wrth wrando ar y gân yma. Ryan? |
| Ryan: | Dw i'n teimlo'n hapus! |





**Pwynt Iaith 4:  Mynegi teimladau – ymadroddion defnyddiol**

Dw i’n mwynhau … canu.

Dw i wrth fy modd … yn dawnsio.

Mae’n gas gyda fi/gen i … offerynnau swnllyd.

**Gweithgaredd**  Parwch y cwestiynau a’r atebion hyn:

| | |
|---|---|
| Pa gân wyt ti’n hoffi? | Y delyn ydy fy hoff offeryn. |
| Pa un ydy dy hoff offeryn? | Dw i’n teimlo’n drist. |
| Sut wyt ti’n teimlo wrth glywed y gerddoriaeth yma? | Dw i’n hoffi cân y syrcas. |
| Pa offeryn dych chi’n gasáu? | Dw i’n casáu’r tamborîn. |



**Pwynt Iaith 5: Cymharu**

| | |
|---|---|
| Mae hwn fel sŵn | ceffyl. |
| | eliffant. |
| | car. |
| | trên. |

| | |
|---|---|
| Mae hwn fel sŵn | y môr. |
| | gwynt. |
| | glaw. |

**Gweithgaredd** Parwch yr ymadroddion hyn:

| | |
|---|---|
| Mae'r drwm fel sŵn | cath. |
| Mae'r triongl fel sŵn | glaw. |
| Mae'r ffidl fel sŵn | milwyr. |

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Cymraeg Gwaith Work Welsh

**Pwynt Iaith 6: Pawb**

Pawb i godi’r offerynnau.

Pawb i godi offeryn newydd.

Pawb i roi’r offerynnau i lawr.

Pawb i chwarae’r offerynnau’n dawel.

Pawb i chwarae’r offerynnau’n swnllyd.





## Geirfa

**Enwau gwrywaidd** *Masculine nouns*

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| ceffyl/au | horse/s |
| drwm/drymiau | drum/s |
| ffidil/au | fiddle/s |
| milwr/milwyr | soldier/s |
| offeryn/nau | instrument/s |
| pawb | everyone |
| symbal/au | symbal/s |
| tambwrîn/tambwrinau | tambourine/s |
| triongl/au | triangle/s |

**Berfau** *Verbs*

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| casáu | to hate |
| codi | to lift |
| rhoi | to give |
| stompio | to stomp |



**Ansoddeiriau** ***Adjectives***

| **Cymraeg** | **Saesneg** |
|---|---|
| bywiog | lively |
| cysglyd | sleepy |
| tawel/distaw | quietly |
| hoff | favourite |
| swynol | melodic |





**Gramadeg**

**Pa?**

'Dyn ni'n defnyddio '**pa**?' er mwyn gofyn '*which*?'.

Mae treiglad meddal ar ôl '**pa**':

Pa **g**ân?

Pa **g**erddoriaeth?

**'Ei' coll**

Pa sŵn wyt ti'n **g**asáu?

Mae treiglad meddal gan fod '**ei**' ar goll. Dydy'r '**ei**' ddim yno ond mae'r treiglad yn aros.

Os ydy'r gair yn wrywaidd, mae angen treiglad meddal - 'Pa offeryn wyt ti'n **ei** **g**asáu?'

Does dim treiglad yn yr ateb, e.e.

Dw i'n casáu'r drwm.

Dw i'n casáu cân 'Yr Hydref'.

**Hoff**

Mae '**hoff**' yn achosi treiglad meddal, e.e.

'Beth ydy dy hoff **g**ân?'

Beth ydy dy hoff offeryn? Y delyn ydy fy hoff offeryn.



**Fel**

'Dyn ni'n defnyddio '**fel**' er mwyn dweud bod rhywbeth yn debyg i rywbeth arall. Dydy '**fel**' ddim yn achosi treiglad, e.e.

Mae'r sŵn hwn fel cawr.

Mae hwn fel sŵn llew.





## UNED 8: Byd Bach

### Pwynt Iaith 1: Ble? / Lle?

| | |
|---|---|
| Ble/Lle mae'r defaid? | Mae'r defaid yn y cae. |
| Ble/Lle mae'r ceffylau? | Mae'r ceffylau wrth y gât. |
| Ble/Lle mae'r hwyaid? | Mae'r hwyaid ar y llyn. |
| | |
| Ble/Lle mae'r ceir? | Mae'r ceir o dan y gadair. |
| Ble/Lle mae'r orsaf? | Mae'r orsaf drws nesaf i'r banc. |
| Ble/Lle mae'r ambiwlans? | Mae'r ambiwlans gyferbyn â'r ysgol. |

### Pwynt Iaith 2: Pa?

| | |
|---|---|
| Pa anifail sy'n byw mewn cae? | Mae dafad yn byw mewn cae. |
| Pa anifail sy'n byw mewn coeden? | Mae aderyn yn byw mewn coeden. |
| | |
| Pa anifeiliaid sy yn y sw? | Mae mwncïod yn y sw. |
| | Mae teigrod yn y sw. |
| | Mae jiraffod yn y sw. |





| | |
|---|---|
| Pa anifeiliaid sy ar y fferm? | Mae gwartheg ar y fferm. |
| | Mae ieir ar y fferm. |
| | Mae moch ar y fferm. |
| Pa anifail sy'n byw ar yr iâ? | Mae arth wen yn byw ar yr iâ. |
| Pa anifail sy'n byw o dan y môr? | Mae siarc yn byw o dan y môr. |

**Darn 1**

| | |
|---|---|
| Arweinydd: | Edrychwch ar y fferm, blant. Pwy sy'n gweithio ar y fferm? |
| Chloe: | Ffermwr! |
| Arweinydd: | Arbennig, Chloe. Pa anifail sy'n byw mewn cae? |
| Ashton: | Buwch! |
| Arweinydd: | Gwych, Ashton! Mae buwch yn byw mewn cae. Pa anifail sy'n byw o dan y môr? |
| Ashton: | Cranc! |
| Chloe: | Siarc! |
| Regan: | Seren fôr! |
| Arweinydd: | Da iawn, bawb. Mae cranc, siarc a seren fôr yn byw o dan y môr! |



**Darn 2**

| | |
|---|---|
| Arweinydd: | Dyma'r ffermwyr ar y fferm. Be sy yn y cwt? |
| Robbie: | Ieir! |
| Arweinydd: | Arbennig, Robbie! Mae ieir yn y cwt. Be sy yn y stabl? |
| Megan: | Mae ceffyl yn y stabl. |
| Arweinydd: | Da iawn, Megan, ceffyl sy yn y stabl. Lle mae'r ceiliog? |
| Robbie: | Ar y to! |
| Arweinydd: | Ardderchog, Robbie, mae'r ceiliog ar y to. |

**Gweithgaredd** Llenwch y bylchau:

Mae'r mochyn yn byw __________twlc.

Mae'r morfil yn byw ____________môr.

Mae'r cranc yn byw ____________ garreg.

Mae'r dylluan yn byw ___________coeden.





**Pwynt Iaith 3: Wedi bod**

| | |
|---|---|
| Wyt ti wedi bod i'r sw? | Ydw, dw i wedi bod i'r sw.<br>Nac ydw, dw i ddim wedi bod i'r sw erioed.<br><br>Do, dw i wedi bod i'r sw.<br>Naddo, dw i ddim wedi bod i'r sw erioed. |
| Dych/Dach chi wedi bod i'r sw? | Ydyn/Ydan, 'dyn/dan ni wedi bod i'r sw.<br>Nac ydyn/Nac ydan, 'dyn/dan ni ddim wedi bod i'r sw erioed.<br>Do, dan ni wedi bod i'r sw.<br>Naddo, dan ni ddim wedi bod i'r sw erioed. |
| Wyt ti wedi bod ar fferm erioed? | Ydw, dw i wedi bod ar fferm.<br>Nac ydw, dw i ddim wedi bod ar fferm erioed.<br>Do, dw i wedi bod ar fferm.<br>Naddo, dw i ddim wedi bod ar fferm erioed. |

| | |
|---|---|
| Dych chi/dach chi wedi bod ar fferm erioed? | Ydyn/Ydan, ’dyn/dan ni wedi bod ar fferm.<br>Nac ydyn/Nac ydan, ’dyn/dan ni ddim wedi bod ar fferm erioed.<br>Do, dan ni wedi bod ar fferm.<br>Naddo, dan ni ddim wedi bod ar fferm erioed. |

**Pwynt Iaith 4: Gweld**

| | |
|---|---|
| Beth/Be welaist ti yn y sw? | Gwelais i fwnci swnllyd.<br>Gwelais i jiráff tal.<br>Gwelais i lew ffyrnig. |
| Beth/Be welaist ti ddim yn y sw? | Welais i ddim teigr yn y sw.<br>Welais i ddim crocodeil.<br>Welais i ddim eliffant. |



**Darn 3**

Arweinydd: Dych chi wedi bod i'r sw erioed, blant?

Mici: Ydw, dw i wedi bod i'r sw!

Arweinydd: Beth welaist ti?

Mici: Gwelais i fwnci, jiraff, sebra a pharot!

Arweinydd: Gwych, Mici. Wyt ti wedi bod i'r sw erioed, Telyn?

Telyn: Nac ydw.

Arweinydd: Wyt ti wedi bod ar fferm erioed?

Telyn: Ydw.

Arweinydd: Beth welaist ti ar y fferm?

Telyn: Gwelais i fochyn, ieir, dafad a cheffyl.

Arweinydd: Hyfryd, Telyn.

**Pwynt Iaith 5: Faint ...?**

| | |
|---|---|
| Faint o'r anifeiliaid sy'n byw mewn jyngl? | Saith. |
| Faint o'r anifeiliaid sy'n byw ar yr iâ? | Dim ond un. |
| | |
| Faint ohonoch chi sy'n byw ar fferm? | Fi ... a fi ... a fi! |
| Faint ohonoch chi sy wedi bod i sw erioed? Pawb? | Wel dyna lwcus/ffodus! |
| | |
| Faint ohonon ni sy'n mynd i gyfri'r anifeiliaid? | |
| Faint ohonon ni sy'n barod i gael diod? | |



## Geirfa

**Enwau benywaidd** ***Feminine nouns***

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| arth/eirth | bear/s |
| buwch/gwartheg | cow/s |
| carreg/cerrig | stone/s |
| coeden/coed | tree/s |
| gorsaf/oedd | station/s |
| hwyaden/hwyaid | duck/s |
| iâr/ieir | hen/s |
| injan dân/injanau tân | fire engine/s |
| meddygfa/meddygfeydd | surgery/surgeries |
| seren fôr/sêr môr | starfish/es |

**Enwau gwrywaidd** ***Masculine nouns***

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| anifail/anifeiliaid | animal/s |
| beudy/beudai | cowshed/s |
| cae/au | field/s |
| ceiliog/od | cockerel/s |
| cwt/cytiau | sty/sties |
| heddwas/heddweision | police officer/s |



| | |
|---|---|
| iâ | ice |
| llew/od | lion/s |
| meddyg/on | doctor/s |
| môr/oedd | sea/s |
| mwydyn/mwydod | worm/s |
| teigr/od | tiger/s |
| twlc/tylciau | pigsty/pigsties |

**Berfau** *Nouns*

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| byw | to live |
| gyrru | to drive |

**Ansoddeiriau** *Adjectives*

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| ffyrnig | fierce |
| swnllyd | noisy |



**Gramadeg**

**Mewn/yn**

'Dyn ni'n defnyddio '**mewn**' er mwyn dweud '*in a*', e.e.

Pa anifail sy'n byw mewn coeden? = in a tree

'Dyn i'n defnyddio '**yn**' + '**y/yr**' er mwyn dweud '*in the*'. Os ydy'r gair sy'n dilyn yn dechrau â chytsain (*consonant)*, 'dyn ni'n defnyddio '**y**', e.e.

Pwy sy'n gweithio yn y banc?

Os ydy'r gair sy'n dilyn yn dechrau â llafariad (*vowel*), 'dyn ni'n defnyddio '**yr**', e.e.

Pwy sy'n gweithio yn yr ysbyty?

**Ble/Lle mae pethau?**

Mae nifer o arddodiaid yn yr uned hon sy'n dweud wrthon ni ble mae pethau. Dyma nhw a'r treigladau sy'n eu dilyn:

| | |
|---|---|
| **Ar** *On* | Treiglad Meddal |
| **Gyferbyn â** *Opposite (with)* | Treiglad Llaes |
| **Drws nesaf** *Next door (to)* | Treiglad Meddal |
| **Wrth** *By* | Treiglad Meddal |
| **O dan** *Under* | Treiglad Meddal |
| **O flaen** *In front of* | |
| **Tu ôl i** *Behind* | |





**Wedi bod**

’Dyn ni’n defnyddio ‘**wedi bod**’ ar gyfer ‘*have been’*. Os ’dyn ni’n ychwanegu ‘**erioed**’ mae’n meddwl ‘*ever*’, e.e.

Wyt ti wedi bod i’r sw erioed? *Have you ever been to the zoo?*

**Beth/Be welaist ti?**

Mae ‘**Beth/Be welaist ti?**’ yn gofyn beth mae’r person wedi ei weld yn y gorffennol.

Wrth ateb, bydd angen cofio treiglo ‘**beth**’ dych chi wedi ei weld (y gwrthrych), e.e.

Gwelais i **f**wnci.

Gwelais i **l**ew.

Os dych chi ddim wedi gweld rhywbeth, mae angen treiglo’n feddal ar ddechrau’r ateb, e.e.

Welais i ddim llew.

Welais i ddim eliffant.

Sylwch does dim angen treiglo’r ‘**peth**’ ar ôl ‘**ddim**’, e.e. welais i ddim crocodeil.



**Ohonon ni** ac **Ohonoch chi**

Os oes rhagenw (e.e. ni, nhw, ti) yn dilyn ‘**o**’, mae’n rhaid i ni gael y terfyniad (*ending*) cywir a ‘rhedeg’ yr arddodiaid,
e.e. o + fi = ohono i.

| O |
|---|
| ohono i |
| ohonot ti |
| ohono fe/fo |
| ohoni hi |
| ohonon ni |
| ohonoch chi |
| ohonyn nhw |



## UNED 9: Mathemategol

### Pwynt Iaith 1: Sawl ...?

| | |
|---|---|
| Sawl plentyn sy yma heddiw? | Mae deg plentyn yma heddiw. |
| Sawl tedi sy yma? | Mae dau **d**edi yma. |
| Sawl cwpan sy yma? | Mae tri **ch**wpan yma. |
| Sawl cot sy yno? | Mae tair cot yno. |
| | |
| Sawl wyneb sy gan y ciwb? | Chwech. |
| Sawl wyneb sy gan y silindr? | Dau. |
| | |
| Sawl ochr sy gan y triongl? | Tair. |
| Sawl ochr sy gan y sgwâr? | Pedair. |
| | |
| Sawl cornel sy gan y pentagon? | Pu**m** cornel. |
| Sawl cornel sy gan yr hecsagon? | Chwe **ch**ornel. |



**Pwynt iaith 2: Faint ...?**

| | |
|---|---|
| Faint o blant sy yma heddiw? | Mae deg o blant yma heddiw. |
| Faint o bensiliau sy yn y drôr? | Mae saith o bensiliau yn y drôr. |
| Faint o fagiau sy wrth y drws? | Mae pump o fagiau wrth y drws. |
| Faint o lyfrau sy ar y silff? | Mae wyth o lyfrau ar y silff. |
| Faint o afalau sy ar y plât? | Mae tri o afalau ar y plât. |

**Pwynt Iaith 3: Pa ...? Hwn, hon a hyn.**

| | |
|---|---|
| Pa siâp ydy hwn? | Sgwâr. |
| Pa ddoli yw dy un di? | Hon! |
| Pa siapiau sy ar y bwrdd? | Y siapiau hyn. |

**Pwynt Iaith 4: Hwnna, Honna a Rheina/Rheiny**

| | |
|---|---|
| Pa fag yw dy un di? | Hwnna |
| Pa sgwâr ydy'r mwyaf? | Hwnna. |
| Pa got ydy dy un di? | Honna. |
| Pa siapiau sy ar y bwrdd? | Rheina/Rheiny. |
| Pa lyfrau sy yn y drôr? | Rheina/Rheiny. |



**Gweithgaredd** Llenwch y bylchau â'r geiriau cywir.

| | |
|---|---|
| Arweinydd: | Nawr, blant, ________ i gyfri gyda fi. ____ rif ydy hwn? |
| Emily: | Pump! |
| Arweinydd: | Da iawn, Emily, pump ydy e. __________ gyda fi. Un, dau, tri, pedwar, pump. Beth ydy _____? |
| Amir: | Tedi! |
| Arweinydd: | Da iawn, Amir, tedi ydy e. Mae dau dedi yn y llun. Beth ydy ____? |
| Ashok: | Doli! |
| Arweinydd: | Gwych, Ashok, doli ydy hi. Mae tair doli yn y llun. |

dau/cyfrwch/hon/pa/dewch/hwn/tair



## Geirfa

**Enwau benywaidd** *Feminine nouns*

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| ochr/au | side/s |
| silff/oedd | shelf/shelves |

**Enwau gwrywaidd** *Masculine nouns*

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| afal/au | apple/s |
| ciwb/iau | cube/s |
| cylch/oedd | circle/s |
| cynnig/cynigion | attempt/s |
| petryal/au | rectangle/s |

**Berfau** *Verbs*

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| dod | to come |
| rhoi | to give |



**Gramadeg**

**Sawl** a **Faint?**

Mae dwy ffordd o ofyn ‘*how many?’* yn Gymraeg.

Mae’n bosibl defnyddio ‘**Sawl** + unigol’, e.e.

Sawl plentyn? Sawl siâp? Sawl cylch?

Does dim treiglad ar ôl ‘**sawl**’. Dydy ‘**sawl**’ ddim yn cael ei ddefnyddio llawer yng ngogledd Cymru.

Ffordd arall yw defnyddio ‘**Faint** + o + lluosog?’, e.e.

Faint o **b**lant? Faint o siapiau? Faint o **g**ylchoedd?

Cofiwch fod angen treiglad meddal yn dilyn ‘**o**’.

**2,3,4**

Mae ffurf fenywaidd a ffurf wrywaidd i’r rhifau 2,3,4 gan ddibynnu am beth dych chi’n sôn. Os dych chi’n trafod enwau gwrywaidd, rhaid defnyddio’r ffurfiau hyn:

Dau + Treiglad Meddal, e.e. dau floc

Tri + Treiglad Llaes, e.e. tri char

Pedwar + Dim treiglad, e.e. pedwar triongl

Os dych chi'n trafod enwau benywaidd, rhaid defnyddio'r ffurfiau hyn:

Dwy + Treiglad Meddal, e.e. dwy ddoli

Tair + Dim treiglad, e.e. tair merch

Pedair + Dim treiglad, e.e. pedair cadair

Does dim dwy ffurf i '**un**', ond os dych chi'n gosod enw benywaidd ar ei ôl, rhaid treiglo'n feddal (heblaw am '**ll'** a '**rh**'), e.e.

un **g**adair, un **dd**oli, un **f**erch OND un llinell, un rhaw.

**5**

Os dych chi'n gosod gwrthrych yn syth ar ôl '**pump**', rhaid gollwng (*drop)* y '**p**' olaf, e.e.

pum sgwâr, pum deilen

**6**

Os dych chi'n gosod gwrthrych yn syth ar ôl '**chwech**', rhaid gollwng y '**ch**' olaf, e.e.

chwe rhif, chwe siâp.

Mae hefyd yn achosi treiglad llaes i'r llythrennau '**t**', '**c**', '**p**', e.e.

chwe **th**riongl, chwe **ch**adair, chwe **ph**lentyn.



**Hwn, hon a hyn**

Wrth ysgrifennu neu wrth siarad yn fwy ffurfiol, mae pobl yn defnyddio ‘**hwn**’ a ‘**hon**’ yn lle ‘**yma**’. Os yw’r gair yn lluosog, defnyddiwch ‘**hyn**’ yn syth ar ôl y gair.

**Hwnna/Hwnnw** **Honna/Honno** **Hynny** **Rheina/Rheiny**

Ar lafar, os dych chi’n gallu pwyntio neu ddangos y peth, mae pobl yn dweud ‘**hwnna**’, ‘**honna**’ a ‘**rheina**’ yn Ne Cymru, a ‘**rheiny**’ yn Ngogledd Cymru.

Wrth ysgrifennu eto, neu siarad yn ffurfiol, mae pobl yn defnyddio ‘**hwnnw**’, ‘**honno**’ a ‘**hynny**’ yn lle ‘**yna**’.

# UNED 10: Byd natur a bwystfilod bach

**Pwynt Iaith 1: Ydy'r …?**

Ydy'r chwilen yn gyflym?

Ydy'r mwydyn yn hir?

Ydy'r wlithen yn dew?

Ydy'r corryn yn fawr?

Ydy'r morgrugyn yn brysur?

Ydy'r ddeilen yn fach?

**Darn 1**

| | |
|---|---|
| Arweinydd: | Mae'n amser i ni fynd i edrych am fwystfilod bach tu allan. Gwisgwch eich cotiau, bawb. Nawr, edrychwch yma ger y goeden. Beth sy yma? |
| Alun: | Mwydyn! |
| Arweinydd: | Ardderchog, Alun. Mae mwydyn yma. Ydy'r mwydyn yn hir? |
| Plant: | Ydy. |
| Arweinydd: | Beth arall sy yma? Dyma forgrugyn. Ydy'r morgrugyn yn araf? |
| Plant: | Nac ydy. |
| Arweinydd: | Nac ydy, mae'n gyflym. Ydy'r morgrugyn yn brysur? |
| Alaw: | Ydy. |
| Arweinydd: | Da iawn Alaw, mae'r morgrugyn yn brysur iawn. |





**Pwynt Iaith 2: Cymharu**

| | |
|---|---|
| Ydy'r corryn mor fawr â'r falwen? | Ydy/Nac ydy. |
| Ydy'r ddeilen mor hir â'r brigyn? | |
| | |
| Ydy'r blodyn cymaint â'r llwynyn? | |
| Ydy'r falwen cymaint â'r wenynen? | |
| | |
| Ydy'r mwydyn yn hirach na'r wlithen? | |
| Ydy'r falwen yn arafach na'r morgrugyn? | |
| Ydy'r broga'n fwy na'r llyffant? | |
| Ydy'r mochyn coed yn fwy na'r chwilen? | |
| Ydy'r morgrugyn yn llai na'r pryfyn? | |

**Pwynt Iaith 3: Y mwyaf/Y lleiaf**

| | |
|---|---|
| Pa un yw'r mwyaf - y broga neu'r llyffant? | Y llyffant! |
| Pa un yw'r fwyaf - y falwen neu'r wlithen? | Y wlithen! |
| Pa un yw'r fwyaf peryglus - y ddraenen neu'r blodyn? | |
| Pa un yw'r lleiaf - y mwydyn neu'r chwilen? | |
| Pa un yw'r lleiaf - y pryfyn neu'r wenynen? | |



**Darn 2**

Arweinydd: Mae llawer o bethau yma. Edrychwch arnyn nhw'n ofalus. Ydy'r corryn/pry cop cymaint â'r wlithen?

Plant: Nac ydy.

Arweinydd: Da iawn. Ydy'r wlithen cymaint â'r ddeilen?

Plant: Nac ydy.

Arweinydd: Ydy'r wlithen yn hirach na'r falwen?

Plant: Ydy.

Arweinydd: Arbennig. Da iawn. Ydy, mae'r wlithen yn hirach na'r falwen. Ydy'r broga'n fwy na'r wlithen?

Plant: Ydy.

Arweinydd: Rhagorol. Mae'r broga'n fwy na'r wlithen.

**Gweithgaredd** Gyda phartner, meddyliwch am eiriau yn lle'r rhai mewn print tywyll. Cofiwch dreiglo os oes angen!

Mae Rhys mor **dal** â Rhodri.

Mae Elan mor **gyffrous** â Steffan.

Ydy'r mwydyn yn **dewach** na'r broga?

Ydy'r chwilen yn **llai** na'r wlithen?

Y neidr yw'r **mwyaf peryglus**.



**Darn 3**

| | |
|---|---|
| Arweinydd: | Edrychwch yma. Mae pili pala, pryfyn a chwilen. Ydy'r pryfyn yn fwy na'r chwilen? |
| Plant: | Nac ydy. |
| Arweinydd: | Gwych. Nac ydy, dydy'r pryfyn ddim yn fwy na'r chwilen, Mae'r pryfyn yn llai na'r chwilen. Pa un yw'r fwyaf, y chwilen neu'r pili pala? |
| Plant: | Pili pala! |
| Arweinydd: | Ardderchog! |

**Gweithgaredd** Llenwch y bylchau â'r geiriau cywir.

Dych chi'n mynd â grŵp o blant allan i'r ardal tu allan. Dyma sgript i chi. Treiglwch os oes angen.

Nawr blant, 'dyn ni'n mynd i edrych am ______________. Dych chi'n gallu eu gweld nhw? Dewch yma, beth sy yma? Dw i'n gallu/medru gweld chwilod, mwydod, morgrug a _____________. Pa un ydy'r ___________, y chwilen neu'r wlithen? Da iawn, mae hi'n fawr iawn. Pa un ydy'r __________, y morgrugyn neu'r mwydyn? Ydy'r mwydyn yn ____________na'r wlithen? Ydy'r mwydyn yn ____________? Nac ydy, ddim o gwbl. Da iawn, bawb.

mwyaf/hirach/trychfilod/prysuraf/peryglus/gwlithod.



## Geirfa

**Enwau benywaidd** *Feminine nouns*

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| chwilen/chwilod | beetle/s |
| deilen/dail | leaf/leaves |
| draenen/drain | thorn/s |
| gwenynen/gwenyn | bee/s |
| gwlithen/gwlithod | slug/s |
| malwen/malwod | snail/s |

**Enwau gwrywaidd** *Masculine nouns*

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| brigyn/brigau | twig/s |
| broga/brogaod | frog/s |
| bwystfil/bwystfilod | beast/s |
| corryn/corrod | spider/s |
| llyffant/llyffantod | toad/s |
| mochyn y coed/moch y coed | woodlouse/lice |
| morgrugyn/morgrug | ant/s |
| mwydyn/mwydod | worm/s |
| pili pala/pili palod | butterfly/butterflies |
| pry cop/pryfed cop | spider/s |
| pryfyn/pryfod | insect/s |



**Ansoddeiriau** *Adjectives*

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| araf | slow |
| bregus | fragile |
| cyflym | fast |
| del/pert | pretty |
| hir | long |
| lliwgar | colourful |
| peryglus | dangerous |
| prysur | busy |



**Gramadeg**

Pan 'dyn ni'n cymharu dau beth sy'n gyfartal (*equal),* 'dyn ni'n defnyddio'r patrwm yma:

Mae'r mwydyn **mor** hir â'r wlithen.

Mae'r blodyn **mor d**al â'r llwynyn.

Mae '**mor'** yn achosi treiglad meddal, e.e. mor **d**al.

OND, dydy '**ll**' a '**rh**' ddim yn treiglo, e.e. mor llyfn.

Sylwch ein bod yn defnyddio '**â**' cyn cytsain (*consonant)*, e.e.

mor araf **â** malwen.

Pan 'dyn ni'n cymharu dau beth sy ddim yn gyfartal, 'dyn ni'n defnyddio'r terfyniad (*word ending)* –ach:

Mae mwydyn yn hir**ach** na gwlithen.

Mae coeden yn dal**ach** na blodyn.

Mae morgrugyn yn brysur**ach** na malwen.

Mae pryfyn **yn llai** trwm **na** chwilen.

Mae croen broga**'n fwy** llyfn **na ch**roen llyffant.





Pan 'dyn ni'n dweud mai rhywbeth ydy'r **mwyaf** o rywbeth, e.e. y talaf, y cyflymaf, yr arafaf, 'dyn ni'n defnyddio '**-af**' ar ddiwedd y gair. Yn y patrwm hwn, mae'r peth 'dyn ni'n siarad amdano'n dod gyntaf, e.e.

Y **morgrugyn** ydy'r cyflymaf. Y **falwen** ydy'r arafaf.

Os ydy'r peth sy'n cael ei ddisgrifio'n fenywaidd, mae angen treiglad meddal, e.e.

Y wlithen ydy'r **d**ewaf.

Y chwilen ydy'r **g**yflymaf.

Dyma rai ansoddeiriau cyffredin iawn sy ddim yn dilyn y rheolau arferol:

| | | | |
|---|---|---|---|
| bach | cyn lleied | llai | lleiaf |
| mawr | cymaint | mwy | mwyaf |
| da | cystal | gwell | gorau |
| drwg | cynddrwg | gwaeth | gwaethaf |



**Gweithgareddau**

1. Rhowch 'fi', 'ti', 'fe/fo', 'hi', 'ni', 'nhw' mewn dis. Taflwch y dis. Ceisiwch ymarfer ffurfiau '**Paid**' + '**chwerthin am ben ...**',

   e.e. hi > paid chwerthin am ei phen hi.
2. Gwnewch yr un peth eto gan ddefnyddio '**Paid**' + '**torri ar draws**'.
3. Cyfieithwch y rhain:

   You must wait quietly (ti).

   We wash our hands, before we eat.

   Don't run in case you fall. (chi)

   You must sit on the carpet (chi).

   Before you leave, raise your hands. (ti)

   After we eat the cake.

**Gweithgaredd yn y lleoliad**

1. Ysgrifennwch restr o gyfarwyddiadau, naill ai ar ffurf poster, neu fel cerdyn sy'n addas ar gyfer eich lleoliad.



**Gweithgareddau**

1. **Mewn parau, defnyddiwch y geiriau hyn mewn brawddegau.**

    Rholbren

    Teimlo

    Gludiog

    Cymysga

    Rhowch

2. **Trowch y gorchmynion hyn i'r unigol.**

    Rhowch y toes yn y bowlen.

    Torrwch y toes yn ofalus.

    Defnyddiwch eich dwylo.

    Cymysgwch y dŵr a'r blawd.

    Rholiwch y toes.

3. **Cyfieithwch yr ymadroddion hyn.**

    Will you reach the bowl?

    Can you write 'E' for Elen?

    Will you make a star shape?

    Who can make a ball?

    Is it smooth?



Gweithgareddau

1. Dewiswch un o'ch hoff lyfrau i'w darllen i'r plant. Darllenwch y llyfr gan baratoi un neu ddau gwestiwn ar bob tudalen o'r llyfr.

2. Defnyddiwch y geiriau neu'r ymadroddion mewn cwestiynau. Rhaid i'r person ar eich chwith ateb y cwestiwn cyn taflu'r dis a gofyn y cwestiwn nesaf.

| | | |
|---|---|---|
| Hoffet ti ? | astud | Be sy ...? |
| Sut mae ...? | Pwy sy? | Cymeriad |
| Liciech chi? | clawr | Pwy ydy? |



3. **Rhowch y geiriau hyn yn y golofn gywir.**

diflas swil tedi doli car bocs

castell draig sgipio môr morfil aderyn

tudalen cerdded anodd coginio

| **Enwau gwrywaidd** | **Enwau benywaidd** | **Berfau** | **Ansoddeiriau** |
|---|---|---|---|
| | | | |

**Gweithgareddau yn y lleoliad**

1. Darllenwch stori i'r plant gan ofyn o leiaf dri chwestiwn ar bob tudalen.
2. Meddyliwch am y cwestiynau dych chi'n eu defnyddio amlaf wrth ddarllen stori. Gwnewch restr ohonyn nhw a'r atebion cywir sy'n cyd-fynd â nhw, e.e. 'Ydy'r ffermwyr yn y cae?' Ateb: 'Ydy'/ 'Nac ydy'.



**Gweithgareddau**

1. **Parwch y cwestiynau a'r atebion.**

| | |
|---|---|
| Gawn ni ennill? | Cei |
| Pwy sy eisiau tro nesa? | Cewch |
| Wyt ti eisiau chwarae gêm? | Fi! |
| Ga i fynd nawr? | Ydw |

2. **Rhowch y cyfarwyddiadau hyn yn y drefn gywir.**

Taflwch y dis.
Dych chi eisiau chwarae nadroedd ac ysgolion?
Cei di fynd nesa, Emyr.
Tro Alun sy gynta.
Dewiswch gownter yn gynta.
Pwy sy eisiau chwarae gêm?

3. **Cyfieithwch yr ymadroddion hyn.**

Who wants a turn?
Move the counter
Wait for your turn.
You are sharing well.
Have you ever lost?



**Gweithgareddau yn y lleoliad**

1. Paratowch gêm syml i'w chwarae gyda'r plant, e.e. snap. Sicrhewch eich bod wedi paratoi'r holl orchmynion sydd eu hangen arnoch, e.e. '**Cymera gerdyn'**, '**Arhosa dy dro'**. Cofiwch ddefnyddio geiriau canmol.
2. Eisteddwch gyda'r plant i wneud jig-so. Gofynnwch gwestiynau addas iddyn nhw, gan ddefnyddio ffurfiau'r uned, e.e. '**Wyt ti eisiau...?**', **'Ga i ...?**'



**Gweithgareddau**

1. **Trowch y berfenwau hyn yn orchmynion unigol a lluosog.**

    Plygu
    Sgipio
    Eistedd
    Edrych
    Aros

2. **Cysylltwch y gorchmynion canlynol â'r disgrifiad addas.**

| | |
|---|---|
| Rhewa | fel llygoden |
| Rhedwch | fel crwban |
| Ymestynna | fel iâ |
| Neidiwch | fel cwningen |
| Cerddwch | fel coeden |





3. Dyma reolau'r Cylch Meithrin.  Newidiwch y pethau hyn yn orchmynion lluosog.

| |
|---|
| eistedd wrth y bwrdd |
| wrando'n astud |
| sefyll eich tro |
| agor y drws yn ofalus |
| wneud eich gorau |

**Gweithgareddau yn y lleoliad**

1. Chwaraewch gêm 'Mae Seimon yn dweud' gyda'r plant, e.e. 'Mae Seimon yn dweud "neidiwch fel mwnci"'.
2. Paratowch restr o'r gorchmynion dych chi'n eu defnyddio amlaf gyda'r plant. Sicrhewch eich bod yn gwybod yr unigol a'r lluosog. Ceisiwch ddefnyddio o leiaf pum gorchymyn gwahanol gyda'r plant yn unigol ac yn lluosog wrth wneud gweithgaredd corfforol.



**Gweithgareddau**

**1. Cyfieithwch yr ymadroddion hyn.**

1. What's happening now?
2. Is the leaf going to float?
3. What has sunk in the water?
4. Is the pipe going to sink?
5. What are you doing?
6. Is there a star in the sand?
7. What has happened to the castle?
8. Is there a pipe in the water?
9. The sand is flowing through the sieve.
10. What has happened to the penny?

**2. Dyma'r atebion, ond beth ydy'r cwestiynau?**

1. Mae'r cwch wedi suddo yn y dŵr.
2. Oes, mae twndis yn y tywod.
3. Mae'r gragen yn arnofio ar y dŵr
4. Oes, mae cragen yn cuddio yn y tywod.
5. Ydy, mae'r rhaw yn mynd i suddo.





3. **Beth ydy'r geiriau sydd ar goll?**

1. Beth sy'n ____________nawr?
2. Ydy'r geiniog yn mynd i _______?
3. Beth sy'n _________yn y tywod?
4. Ydy'r dŵr yn ________ twba?
5. Dw i'n _________ dŵr yn y cwpan.

suddo/llenwi'r/cuddio/arllwys/tywallt/digwydd

**Gweithgareddau yn y lleoliad**

1. Paratowch nifer o gwestiynau sy'n dechrau gydag '**oes**' i'w gofyn i'r plant wrth chwarae â thywod a dŵr. Sicrhewch fod y plant yn ateb yn gywir '**Oes**' neu '**Nac oes'**. Bydd angen gwneud hyn nifer o weithiau er mwyn sicrhau'r atebion cywir.
2. Rhowch labeli o ddau liw gwahanol ar eitemau gwrywaidd ac eitemau benywaidd dych chi'n eu defnyddio wrth yr ardal tywod a dŵr. Gofynnwch i'r plant '**Beth/be ydy hwn?**', a '**Beth ydy hon?**'



**Gweithgareddau**

1. **Dyma'r atebion, ond beth ydy'r cwestiynau?**

'Lliwiau' ydy ein hoff gân.

Y ffidil ydy ein hoff offeryn.

Dw i'n casáu sŵn y triongl.

Dan ni'n hoffi cân yr haul.

Dw i'n teimlo'n drist.

2. **Cysylltwch yr enwau a'r ansoddeiriau addas.**

| | |
|---|---|
| drwm | tawel |
| ffliwt | swnllyd |
| sŵn | hapus |
| cân | swynol |

3. **Atebwch y cwestiynau canlynol.**
    1. Pa un ydy dy hoff gân?
    2. Pa sŵn wyt ti'n gasáu?
    3. Pa offeryn wyt ti'n hoffi?
    4. Sut wyt ti'n teimlo wrth glywed cân swnllyd?
    5. Sut wyt ti'n teimlo wrth glywed dy hoff gân?



**Gweithgareddau yn y lleoliad**

1. Rhowch bob offeryn ar y llawr a gofynnwch i'r plant ddewis eu hoff offeryn. Wedyn, gofynnwch iddyn nhw ei chwarae'n swnllyd, yn dawel ac yn y blaen.
2. Chwaraewch ddwy gân wahanol i'r plant – un yn fywiog ac un yn dawel. Gofynnwch i'r plant pa un yw eu hoff gân a sut mae'r caneuon yn gwneud iddyn nhw deimlo.



**Gweithgareddau**

**1. Parwch yr anifail a'r cartref cywir.**

| | |
|---|---|
| Mae'r mochyn yn byw | mewn cwt. |
| Mae'r arth wen yn byw | o dan y môr. |
| Mae'r ceffyl yn byw | mewn twlc. |
| Mae'r pysgodyn yn byw | ar yr iâ. |
| Mae'r iâr yn byw | mewn stabl. |

**2. Cyfieithwch yr ymadroddion hyn.**

I haven't ever been to the zoo.

Have you ever been on a farm?

Where does a sheep live?

The nurse works in a hospital.

Who works in a school?

**3. Atebwch y cwestiynau hyn.**

Wyt ti wedi bod i'r sw erioed?

Beth/Be welaist ti ar y fferm?

Ble mae'r mochyn yn byw?

Pa anifail sy'n byw mewn beudy?



**Gweithgareddau yn y lleoliad**

1. Argraffwch lun o fferm a llun o dan y môr. Argraffwch luniau o anifeiliaid a allai fyw naill ai ar y fferm neu o dan y môr. Gofynnwch i'r plant osod yr anifeiliaid yn eu cartref cywir.

2. Gosodwch anifeiliad gwahanol mewn lleoliadau gwahanol ar y fferm. Gofynnwch i'r plant 'Ble/Lle mae'r ceffyl?', 'Ble/Lle mae'r hwyaid' er mwyn ailadrodd y patrymau, 'Mae'r ceffyl **yn y** stabl', 'Mae'r hwyaid **ar** y llyn'. Gallwch ddefnyddio llun yn lle model o fferm os oes angen.





**Gweithgareddau**

**1. Cyfieithwch y cwestiynau hyn.**

1. How many children are in the class?
2. How many blocks are on the table?
3. How many corners does the star have?
4. Which shape is this?
5. How many sides does the triangle have?
6. This is my book.
7. Which number is this?
8. That's my pencil.

**2. Gyda phartner, dewiswch y patrwm isod a rhowch y geiriau yn y cwestiwn, gan ddewis yr ateb cywir. Mae'r enghraifft wedi'i gwneud yn barod.**

Pa ________ wyt ti eisiau?

**llyfr, tedi, doli, lluniau, cylch, bloc, cot, pensiliau,**

*Pa lyfr wyt ti eisiau? Hwn.*



**Gweithgareddau yn y lleoliad**

1. Gweithiwch gyda'r plant i wneud siart i'w rhoi ar y wal i ddangos y siapiau gwahanol. Labelwch bob siâp.
2. Paratowch daflen â siapiau arni y gall plant ei lliwio. Wrth iddyn nhw liwio'r daflen, gofynnwch gwestiynau iddyn nhw, e.e. '**Pa siâp ydy hwn?**', '**Sawl cornel sy gan y triongl?**', '**Sawl wyneb sy gan y cylch?**'



**Gweithgareddau**

**1. Edrychwch ar y geiriau isod a cheisiwch ysgrifennu brawddegau sy'n eu cymharu â'i gilydd. Mae'r un gyntaf wedi ei wneud yn barod. Gallwch ddefnyddio ansoddeiriau eraill hefyd.**

| | | |
|---|---|---|
| corryn | malwoden (cyflym) | *Mae'r corryn yn fwy cyflym na'r falwoden.* |
| neidr | pryfyn (hir) | |
| pili pala | broga (bregus) | |
| mwydyn | morgrugyn (prysur) | |
| blodyn | coeden (lliwgar) | |

**2. Cyfieithwch yr ymadroddion hyn.**

1. Is the frog pretty?
2. Is the beetle fast?
3. Is the flower colourful?
4. The snail is slow.
5. The tree is tall.



**3. Ticiwch y brawddegau cywir.**

1. Mae’r llyffant yn fwy na’r broga.
2. Mae’r corryn yn pert.
3. Mae morgrugyn mor mawr â mochyn y coed.
4. Mae blodau’n bertach na chwilod.
5. Y wlithen ydy’r tewaf.

**Gweithgareddau yn y lleoliad**

1. Ewch allan am dro gyda’r plant. Gofynnwch gwestiynau addas iddyn nhw am y pethau o’u cwmpas. Ceisiwch gymharu dau beth.
2. Meddyliwch am yr ansoddeiriau dych chi’n eu defnyddio fwyaf. Gwnewch grid er mwyn cymharu’r ansoddeiriau y gallwch ei osod fel poster ar y wal yn eich lleoliad. Defnyddiwch y ffurfiau gyda’r plant.